PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**E-lawlyfr 2**

**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

**Adnodd 5**

# *Sosialaeth: Nodweddion Allweddol*

## Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

International Politics / Gwleidyddiaeth Ryngwladol

cbac wjec

# CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr is-raddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid cynhyrchu gwerslyfr swmpus oedd y bwriad, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon.

Mae E-lawlyfr 2 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol sy'n cydfynd ag agweddau ar fanyleb Uned 3 y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.' Mae tair elfen i bob adnodd:

**: Gwybodaeth Graidd**

**: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion**

**: Canllaw i Athrawon**

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 2 ar y dudalen nesaf, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb CBAC sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd gwahanol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/

| TEITL YR UNED | MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR UNED |
|---|---|
| Adnodd 1: Rhyddfrydiaeth: nodweddion allweddol | 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 2: Rhyddfrydiaeth: ffrydiau amrywiol | 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 3: Ceidwadaeth: nodweddion allweddol | 3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 4: Ceidwadaeth: ffrydiau amrywiol | 3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| **Adnodd 5: Sosialaeth: nodweddion allweddol** | **3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol** |
| Adnodd 6: Sosialaeth: ffrydiau amrywiol | 3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 7: Cenedlaetholdeb: nodweddion allweddol | 3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |
| Adnodd 8: Cenedlaetholdeb: ffrydiau amrywiol | 3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol |

**Awdur yr adnodd hwn:**

Dr. Huw Lewis

# GWYBODAETH GRAIDD

## Cyflwyno Sosialaeth

Datblygodd sosialaeth mewn ymateb i'r newidiadau cymdeithasol ac economaidd a sgubodd ar draws Ewrop yn sgil twf cyfalafiaeth ddiwydiannol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Am y tro cyntaf, datblygwyd diwydiannau mawrion a gwelwyd symudiad poblogaeth anferthol o'r wlad i'r dref. Esgorodd newidiadau o'r fath ar amgylchiadau byw a gwaith anodd dros ben i aelodau'r dosbarth gweithiol newydd. Golygai polisïau economaidd *laissez-faire* y cyfnod fod gan gyflogwyr y rhyddid i osod cyflogau ac i drefnu amodau gwaith fel y mynnent. O ganlyniad, tueddai cyflogau i fod yn isel. Ar ben hynny, tueddai'r diwrnod gwaith i fod yn hir iawn (hyd at 12 awr), roedd y defnydd o blant yn y gweithle'n gyffredin ac roedd y peryg o anafiadau ac o ddiweithdra yn gysgodion parhaol.

Arweiniodd y caledi a'r tlodi enbyd a oedd yn nodweddu bywyd y dosbarth gweithiol at amheuaeth gynyddol ynghylch rhinweddau'r gymdeithas gyfalafol fodern. O ganlyniad, erbyn y 1820au a'r 1830au roedd amryw o feddylwyr gwleidyddol – hynny yw y sosialwyr cynnar – yn dechrau meddwl am ffyrdd amgen o drefnu cymdeithas a'r economi. Tybiodd yr arloeswyr hyn fod yr ymatebion a gâi eu cynnig gan ryddfrydwyr y cyfnod yn canolbwyntio'n ormodol ar ddiwygio gwleidyddol graddol a bod galw am syniadau a oedd yn rhoi mwy o sylw i'r angen i drawsnewid seiliau economaidd cymdeithas.

## Nodweddion Allweddol Ceidwadaeth

Wrth gwrs ers degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg mae syniadau sosialaidd wedi esblygu cryn dipyn, ac fel y dangosir yn Adnodd 6 gwelwyd ystod o ffrydiau sosialaidd gwahanol yn datblygu dros y blynyddoedd. Eto i gyd, gellir rhestru cyfres o elfennau pwysig sy'n tueddu i gael eu hystyried fel rhai sy'n nodweddu'r byd-olwg sosialaidd; elfennau sy'n caniatáu i ni wahaniaethu rhwng Sosialaeth ac ideolegau gwleidyddol eraill, yn arbennig Rhyddfrydiaeth neu Geidwadaeth.

## Cymuned

Nodwedd sosialaidd allweddol yw'r gred fod bodau dynol, yn eu hanfod, yn greaduriaid cymdeithasol, ac yn sgil hynny, ein bod ar ein gorau pan fyddwn yn gweithio gydag eraill fel rhan o gymuned er mwyn goresgyn problemau ac anawsterau. Mae hon yn weledigaeth gyfunolaidd (*collectivist*) sy'n rhoi pwyslais ar werth ymdrechu i gyflawni nodau cyffredin yn hytrach na cheisio hunan-les.

Ymhellach, gan mai bodau cymdeithasol ydym tuedda sosialwyr i wrthod yr awgrym fod pobl yn meddu ar natur gynhenid na ellir ei newid – hynny yw ein bod oll, o ran natur, naill ai'n greaduriaid da neu ddrwg. Nid ydym yn byw ein bywydau mewn gwagle. Yn hytrach rydym oll yn byw ein bywydau fel aelodau o gymunedau penodol, a bydd yr amgylchiadau cymdeithasol a wynebwn yn ystod ein bywydau yn cyfrannu at siapio ein cymeriad a'n galluoedd. Ffôl felly yw awgrymu bod nodweddion o'r fath yn bethau sydd wedi'u rhag-osod cyn ein geni.

## Cydweithrediad

Yn sgil, y ffaith eu bod yn dewis dehongli bodau dynol fel creaduriaid cymdeithasol, mae sosialwyr hefyd yn tueddu i roi pwyslais ar ein gallu i gydweithio'n effeithiol ag eraill. Ymhellach, credant y gall y cydweithio hwn ddeillio o gymhellion moesol, anhunanol – nid oes rhaid cynnig gwobr faterol benodol, fel y dadleua'r cyfalafwr. Yn nhyb nifer o sosialwyr gellir meithrin y parodrwydd mewnol hwn i gydweithio a chyfrannu tuag at y lles cyffredin trwy ddatblygu'n hymwybyddiaeth o gyfrifoldeb dros ein gilydd a'n cyd-ddyn.

## Cydraddoldeb

Yr ymrwymiad cryf i gydraddoldeb yw un o brif nodweddion sosialaeth – iddynt hwy, hon, heb os, yw'r egwyddor wleidyddol bwysicaf. Ymhellach, y duedd ymhlith sosialwyr yw arddel y syniad o gydraddoldeb cymdeithasol neu gydraddoldeb canlyniad, yn hytrach na'r syniad mwy cyfyngedig o gyfle cyfartal a gaiff ei arddel gan ryddfrydwyr. Yn nhyb sosialwyr mae'r ffurf fwy pellgyrhaeddol hon ar gydraddoldeb yn hanfodol er mwyn sicrhau cyfiawnder.

Yn wahanol i ryddfrydwyr, nid yw sosialwyr yn barod i dderbyn bod modd cyfiawnhau anghydraddoldeb o ran cyfoeth o fewn cymdeithas ar sail y ffaith bod unigolion oll yn wahanol, ac yn meddu ar alluoedd a hefyd ddiddordebau gwahanol. Nid yw sosialwyr yn gwadu bodolaeth gwahaniaethau cynhenid pwysig ymhlith aelodau cymdeithas ac nid ydynt yn mynnu y dylid trefnu bod pawb yn meddu ar union yr un talentau a sgiliau. Fodd bynnag, cred sosialwyr fod yr achosion mwyaf amlwg ac eithafol o anghydraddoldeb (e.e. gwahaniaethau sylweddol o ran incwm, lefelau iechyd a safon byw) yn deillio o driniaeth gymdeithasol anffafriol, ac na ellir eu diystyru trwy gyfeirio at rai o'r gwahaniaethau o ran sgiliau a geir rhwng unigolion.

## Perchnogaeth Gyffredin

Mae sosialwyr yn aml yn olrhain gwreiddiau anghydraddoldeb o fewn cymdeithas i fodolaeth eiddo preifat – nid yn gymaint eiddo personol megis dillad, ceir neu dai, ond yn hytrach yr eiddo hwnnw y gellir ei drin fel 'cyfalaf' y gellir ei ddefnyddio er mwyn cynhyrchu mwy o gyfoeth.

Mae'r niwed cymdeithasol sy'n deillio o fodolaeth eiddo preifat yn cwmpasu sawl agwedd. I ddechrau, mynnir bod perchnogaeth breifat ar eiddo yn creu anghyfiawnder: gan fod cynhyrchu cyfoeth wastad yn dibynnu ar ymdrech gydweithredol gan ystod eang o bobl, dylai'r cyfoeth hwnnw fod yn eiddo i'r gymuned gyfan yn hytrach na rhai unigolion dethol. Yn ail, honnir bod eiddo preifat yn niweidio ein hymdeimlad o foesoldeb trwy gymell pobl i feddwl mewn termau materol ac i dybio bod hapusrwydd yn ddibynnol ar gywain cymaint o gyfoeth â phosib. Yn drydydd, dadleuir bod eiddo preifat yn arwain ar rannu cymdeithas ac yn cymell gwrthdaro, er enghraifft rhwng y gweithwyr a'r cyflogwyr neu rhwng y cyfoethog a'r tlawd.

O ganlyniad, mae sosialwyr wedi dadlau y dylid cyfyngu ar berchnogaeth o gyfalaf preifat. Cred y Marcsydd fod cydraddoldeb cymdeithasol yn galw am ddiddymu perchnogaeth breifat ar gyfalaf yn llwyr fel rhan o'r broses o sefydlu'r gymdeithas gomiwnyddol. Mewn cyferbyniad, mae'r Democratiaid Cymdeithasol wedi ffafrio llwybr mwy cymedrol – sefydlu rheolaeth gyffredin mewn ystod gyfyngedig o feysydd, er enghraifft yn achos rhai diwydiannau allweddol megis glo, dur, trydan a nwy – yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'uchelfannau'r' economi.

## Dosbarth

Mae dosbarth yn thema sy'n dod i'r amlwg mewn gwaith sosialaidd mewn dau ffordd wahanol. I ddechrau, caiff dosbarth ei drin fel cysyniad dadansoddol. Y duedd ymhlith sosialwyr fu i ddehongli cymdeithas fel casgliad o ddosbarthiadau gwahanol gyda phob dosbarth yn dwyn ynghyd bobl sy'n rhannu'r un statws economaidd. Bydd aelodau pob dosbarth wedyn yn tueddu i uniaethu â'i gilydd ac i rannu'r un math o fyd-olwg. O ganlyniad, yn nhyb sosialwyr, dosbarthiadau, yn hytrach nag unigolion, yw'r actorion allweddol o fewn cymdeithas, a deall hynt y dosbarthiadau hyn yw'r allwedd er mwyn deall unrhyw newid cymdeithasol neu wleidyddol. Mae'r gred hon i'w gweld yn fwyaf amlwg yn namcaniaethau hanesyddol Karl Marx, lle honnir bod esblygiad hanes yn ganlyniad i gyfres o wrthdrawiadau rhwng gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol.

Yn ail, mae sosialaeth yn aml yn cael ei thrin fel ideoleg sy'n cynnig amddiffyniad o fuddiannau un dosbarth cymdeithasol yn benodol, sef y dosbarth gweithiol. Dyma'r dosbarth sydd yn dioddef ecsploetio a gorthrwm parhaol yn sgil natur y gyfundrefn gyfalafol fodern, ond, ar yr un pryd, dyma'r dosbarth sydd â'r potensial i arwain y ffordd tuag at y gymdeithas sosialaidd well.